# CLEFYD PERIODONTOL A DIABETES

## Cyngor i Weithwyr Proffesiynol Meddygol

### CLEFYD PERIODONTOL

Mae clefyd periodontol yn glefyd llidiol cronig sy'n effeithio ar bron i hanner poblogaeth y DU. Os na chaiff ei drin, gall beri i chi golli dannedd ac effeithio'n ddifrifol ar ansawdd eich bywyd. Mae'n hawdd ei ddiagnosio gan ddeintydd ond mae angen ymgysylltiad llawn y claf yn ogystal â glanhau proffesiynol i'w drin. Mae diabetes yn ffactor risg mawr ar gyfer clefyd periodontol.






### DIABETES A CHLEFYD PERIODONTOL

Mae perthynas ddwyffordd rhwng clefyd periodontol a diabetes. Os oes gan bobl y ddau glefyd, a bod y ddau wedi'u rheoli'n wael, mae mwy o debygolrwydd y byddent yn dioddef effeithiau mwy difrifol pob clefyd.

### EFFEITHIAU TRINIAETH


Gall triniaeth clefyd periodontol ar gyfer pobl ddiabetig leihau lefelau HbA1c yn sylweddol o fewn y 3 mis cyntaf. Mae'r raddfa yn debyg i'r hyn a gyflawnir drwy ychwanegu ail feddyginiaeth at drefn ffarmacolegol metfformin.





### RÔL Y MEDDYG TEULU

Mae'n bwysig cynghori'ch claf diabetig am y cysylltiad hwn. Efallai y gellid ychwanegu rhai cwestiynau at yr ymweliad ymgynghori ac adolygu diabetig, a'u cyfeirio at y Porth Mynediad Deintyddol os nad oes ganddynt fynediad at ddeintydd y GIG.



- ✓ Ydych chi erioed wedi cael diagnosis o glefyd y deintgig?
- ✓ Ydy eich deintgig yn gwaedu yn enwedig wrth frwsio?
- ✓ Ydych chi'n dioddef o unrhyw chwyddiadau yn y deintgig?
- ✓ Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw ddannedd rhydd?

**CLWSTWR GORLLEWIN CAERDYDD**

**Porth Mynediad Deintyddol - Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

igdc.gig.cymru